

226/02

LLENYDDIAETH GYMRAEG

HAEN UWCH

A.M. DYDD IAU, 24 Mai 2007

(2 awr)

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 12 tudalen.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **ddau** gwestiwn, **un** cwestiwn o Adran A (Barddoniaeth), ac **un** cwestiwn o Adran B (Nofel).

Defnyddiwch yr indecs isod i ddod o hyd i'r cwestiwn ar y nofel y buoch chi'n ei hastudio.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 25 marc am bob cwestiwn cyfan. Dangosir hyn yn glir ar waelod pob cwestiwn (ynghyd â'r marciau am isgwestiynau).

Cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi'ch sylwadau.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron na thestunau gosod.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

	Tudalen
ADRAN A – BARDDONIAETH	2
ADRAN B – NOFEL	3
AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR (Alun Jones)	4
I BLE'R AETH HAUL Y BORE? (Eirug Wyn)	6
Y STAFELL DDIRGEL (Marion Eames)	8
WELE'N GWAWRIO (Angharad Tomos)	10

ADRAN A – BARDDONIAETH

Atebwch un cwestiwn o'r adran hon.

THEMÂU: NATUR; IEUENCTID A BYWYD CYFOES;
RHYFEL A THRAIS; PIGO CYDWYBOD; CYMRU A CHYMREICTOD
(o'r cyfrolau *Sbectol Inc* a *Hoff Gerddi Cymru*)

Naill ai,

1. Ystyriwch y gerdd 'Y Coed'.

- (a) Nodwch i ba thema y mae'r gerdd yn perthyn ac enwch y bardd. [1]
- (b) Yn eich geiriau eich hun, nodwch yr hyn y mae'r bardd yn ei ddweud yn y gerdd. [5]
Cofiwch **ddyfynnu'n** bwrpasol. [2]
- (c) Cerdd arall sy'n perthyn i'r un thema yw 'Englynion Coffa Hedd Wyn'. [3]
Esboniwch, yn gryno, nodweddion mesur yr englyn.
- (ch) Dewiswch **bedair** nodwedd arddull **wahanol** - **dw**y o 'Y Coed' a **dw**y o 'Englynion Coffa Hedd Wyn'. Dylech [8]
 - eu henwi;
 - dyfynnu enghraifft o'r pedair nodwedd;
 - egluro eu pwrpas a'u llwyddiant.
 Gallwch gyfeirio at nodweddion megis ansoddeiriau, trosiad, cyferbynnu / gwrthgyferbynnu, cymhariaeth / cyffelybiaeth, cynghanedd, cytseinedd / cyflythreniad ac ati.
- (d) Neges pa **un** o'r tair cerdd yn y thema hon a gafodd yr argraff fwyaf arnoch chi? [3]
Rhowch **dri** rheswm. [3]
Cofiwch **ddyfynnu'n** bwrpasol o'r gerdd. [3]
- [25]**

Neu,

2. Dewiswch eich dwy hoff gerdd o thema Ieuentid a Bywyd Cyfoes.

- (a) Nodwch enwau'r cerddi. [1]
- (b) Yn eich geiriau eich hun, rhowch amlinelliad o gynnwys y **ddwy** gerdd mewn paragraffau ar wahân. [5]
Cofiwch **ddyfynnu'n** bwrpasol. [2]
- (c) Esboniwch nodweddion mesur **un** o'r cerddi a ddewisoch yng nghwestiwn 2(a). [3]
- (ch) Dewiswch **bedair** nodwedd arddull **wahanol** o **un** o'r cerddi. Dylech: [8]
 - eu henwi;
 - dyfynnu enghraifft o'r pedair nodwedd;
 - egluro eu pwrpas a'u llwyddiant.
 Gallwch gyfeirio at nodweddion megis ansoddeiriau, trosiad, cyferbynnu / gwrthgyferbynnu, cymhariaeth / cyffelybiaeth, cynghanedd, cytseinedd / cyflythreniad ac ati.
- (d) Pam y mae'r **tair** cerdd wedi eu dewis ar gyfer y thema **Ieuentid a Bywyd Cyfoes**? [3]
Rhowch **dri** rheswm. [3]
Cofiwch **ddyfynnu'n** bwrpasol. [3]
- [25]**

ADRAN B – NOFEL

*Atebwch **un** cwestiwn o'r adran hon.*

AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR - Alun Jones

3. Darllenwch y darn a gymerwyd o **Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr**. Yna, atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

(a) Ysgrifennwch **bortread** llawn o **gymeriad Now Tan Ceris**.
Defnyddiwch dystiolaeth o **bob rhan o'r nofel** wrth lunio'r portread. [4]

(b) Nodwch **un** o'r themâu a ddangosir yn y dyfyniad hwn.
Sut y mae'r thema hon yn cael ei datblygu drwy gydol y nofel?
Cyfeiriwch at enghreifftiau penodol wrth ateb. [5]

(c) Dewiswch **dair** nodwedd arddull **wahanol** o'r darn isod. Dylech:

- eu henwi;
- dyfynnu enghraifft o'r tair nodwedd;
- egluro eu pwrpas a'u llwyddiant.

Gallwch gyfeirio at nodweddion megis ansoddeiriau, cyffelybiaethau / cymariaethau, trosiadau, hyd brawddegau, cyferbyniadau / gwrthgyferbyniadau, deialog ac ati. [6]

(ch) Ysgrifennwch gofnod yn **nyddiadur Richard Jones** wedi'r ymweliad hwn â Than Ceris.
Dylai'r dyddiadur egluro'n fanwl beth y mae Richard Jones am ei wneud nesaf yn ogystal â cheisio cyfleu personoliaeth y cymeriad.
Ysgrifennwch tua dwy dudalen. [10]

[25]

Daethant at Yr Wylan Wen a pharciodd Richard y car o flaen y drws. Clodd y car a dilynodd ei ewythr drwy'r drws. Yn union. Yr oedd wedi dyfalu'n gywir. Tan Ceris yr ail.

Syllodd yn syn braidd ar y croeso a gafodd ei ewythr. Yn naturiol ddigon, pobl ddieithr oedd ynt oll iddo ef, ond os oedd ei ewythr yn dweud y gwir a'i fod yn dod yma bob nos Fercher, nid oedd raid i'r bobl yn y bar bach ei groesawu fel pe bai wedi bod i ffwrdd hanner ei oes. Adwaith plentynnaidd yn nhyb Richard oedd gwneud y fath stŵr pan nad oedd ei ewythr ond wedi newid ei noson. 5

Yr oedd Now wrth y bar. Trodd at Richard.

“Be gymri di?”

“O, fi sy'n talu.”

10

Rhuthrodd Richard i'w boced i estyn ei waled, a chiliodd Now yn ôl yn araf. Wedi'r cyfan, wedi cael ei wadd yno'r oedd ef. Os gwadd, gwadd.

Edrychodd Robin Williams ar Richard.

“Ti biau'r dyn dieithr 'ma Now?”

“Pawb â'i fusnes 'i hun 'tê.”

15

“Bydd fel'na 'ta. Ydych chi'n perthyn?”

“O ydym, mi'r ydym ni'n perthyn,” meddai Now a rhyw olwg synfyriol yn ei lygaid. “Dyna pam y daeth o acw. I edrych sut gyflwr ydw i ynddo fo ac i geisio cael gwybod faint sy gen i i'w adael ar f'ôl iddo fo.”

Aeth wyneb Richard bob lliw. Bu bron iddo â throi ar ei sawdl a mynd allan, ond ailfeddyliodd a cheisiodd chwerthin gyda phawb arall. Penderfynodd y dylai dosturio dros bawb a oedd yma; peth i dosturio drosto oedd dylni, nid peth i wylltio'n ei gylch. 20

Ar ôl cael y diodydd, mynnodd Richard eu bod yn mynd drwodd i'r parlwr bach a oedd yn wag, er mwyn iddo gael mwy o wybodaeth am y tai gan ei ewythr, ac er mwyn bod cyn belled ag oedd modd oddi wrth y ffyliaid busneslyd yn y bar bach. Yn raddol, deuai i sylweddoli mai tipyn o dynnwr coes oedd ei ewythr. Nid oedd yn deall hynny; methai â dirnad cymhelliad y neb a wnâi bethau felly, rhyw lol fabiaidd a weddai'n well i lwyfan theatr neu iard ysgol, ond nid i bobl mewn oed yn eu llawn synhwyrâu. 25

Ond yr oedd ei ewythr yn brysur fynd i dymer dda wrth i'w wydryn wagio. Yr oedd yn hen bryd rhoi cynnig arni eto. 30

“Mae 'ma le braf,” palodd gelwyddau, “does ryfadd 'mod i wrth fy modd yma ers talwm.”

“Y lle gora, wel'di,” atebodd Now wrth estyn ei bwrs baco. “Wyt ti am drïo rowlan rŵan 'ta?”

“Dim diolch. Ys gwn i pwy sy'n byw yn yr hen gornel fach honno o'r cae rŵan?”

“Y?”

“Wyddoch chi'r lle'r oeddwn i'n pabellu ers talwm? Ym mhen draw'r cae bach hwnnw? Roeddwn i'n meddwl mai fi oedd biau'r lle cyn a'r cae a'r pentre a'r mynydd. Mi fyddwn i'n rheoli'r holl fyd o'r babell fach.” 35

“Wel aros di, mae'n anodd deud fel hyn braidd, ond mi fyddwn i'n meddwl mai rhywle'n ymyl tŷ Gladys neu dŷ Wil Parri fyddai dy babell di. Synnwn i ddim mai rhywle'r ffor' honno oedd terfyn yr hen gae bach.” 40

“Pwy ydi Gladys a Wil Parri?”

Cododd Now ei aelïau. Cwestiwn braidd yn rhyfedd i ddyn hollol ddieithr, meddyliai. Ond wedyn, dyna oedd ei nai, un cwestiwn rhyfedd, un rhyfedd o'i streipen wen i'w 'sgidiau sglein.

“Duw, mi wnâi Gladys wraig dda i ti,” meddai gan wenu'n braf i'w beint. “Pam na sythi di ar ei hôl hi? Wyddost ti ddim be gaet ti.” 45

Dechreuodd bwffian chwerthin wrth gau ei smôc. Dychmygai weld ei nai mewn gwely gyda Gladys Drofa Ganol. Daeth yr olygfa'n fyw iddo ac aeth y chwerthin yn waeth.

“Pam nad ei di i fyny ati am sbort?”

“Pam, ydi hi'n un wyllt?”

“Gwyllt?” Methai Now ag atal ei chwerthin. Dechreuodd y dagrau lifo. “Gwyllt ar y diawl, achan.” 50

“Ifanc ydi hi?”

“Dibynnu.”

“Sut?”

“Dos yno ac mi gei di weld drosot dy hun.” 55

Teimlai Richard yn anniddig. Yr oedd ei ewythr yn dechrau tynnu coes eto, ac ni wyddai sut i ymateb.

“Mi gawn groeso felly?”

“Ella. Gwraig weddw ydi hi. Mi sodra Gladys di.”

“Faint ydi 'hoed hi?”

“Tynnu am y deg a thrigain 'ma.” 60

Chwarddodd Now eto wrth weld llygaid ei nai'n bradychu'r siom o gael ei wneud. Braidd yn groendena ydi o, meddai wrth ei flwch matsys wrth danio'r smôc.

I BLE'R AETH HAUL Y BORE? – Eirug Wyn

4. Darllenwch y darn a gymerwyd o **I Ble'r Aeth Haul y Bore?** Yna, atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

(a) Ysgrifennwch **bortread** llawn o **gymeriad Kit Carson**.
Defnyddiwch dystiolaeth o **bob rhan o'r nofel** wrth lunio'r portread. [4]

(b) Nodwch **un** o'r themâu a ddangosir yn y dyfyniad hwn.
Sut y mae'r thema hon yn cael ei datblygu drwy gydol y nofel?
Cyfeiriwch at enghreifftiau penodol wrth ateb. [5]

(c) Dewiswch **dair** nodwedd arddull **wahanol** o'r darn isod. Dylech:

- eu henwi;
- dyfynnu enghraifft o'r tair nodwedd;
- egluro eu pwrpas a'u llwyddiant.

Gallwch gyfeirio at nodweddion megis ansoddeiriau, cyffelybiaethau / cymariaethau, trosiadau, hyd brawddegau, cyferbyniadau / gwrthgyferbyniadau, deialog ac ati. [6]

(ch) Ysgrifennwch gofnod yn **nyddiadur Manuelito** cyn i'r llwyth symud i Ffort Defiance. Dylai'r dyddiadur egluro'n fanwl pa bethau y mae Manuelito a'r Navaho am eu gwneud nesaf yn ogystal â cheisio cyfleu personoliaeth y cymeriad.
Ysgrifennwch tua dwy dudalen. [10]

[25]

Roedd yna gyffro mawr wedi lledaenu trwy Geunant de Chelley pan ddaeth Manuelito'n ôl gyda Haul y Bore. Ysgydwai'r merched eu pennau'n drist wrth weld yr olwg oedd arni, ac roedd y dicter yn amlwg yn lleisiau'r llwyth cyfan wedi iddyn nhw glywed stori Quanah.

Mawr fu'r siarad a'r trafod. Roedd geiriau Manuelito'n cyfrif llawer gan mai ei deulu o oedd wedi dioddef fwyaf. Ac roedd o'n siarad iaith dial. 5

"Fydd y Navahos ddim ar eu pen eu hunain yn y rhyfel hwn. Fe ddaw Geronimo gyda ni – bydd enw Geronimo yn codi dychryn ar y dyn gwyn – a bydd Usen gyda ni. Hyd nes y caiff y Cotiau Glas eu lladd, fydd yna fyth heddwch mwy rhwng y Navahos a'r dyn gwyn!"

"Ymbwylla, Manuelito! Rwyd ti newydd ddychwelyd o fod yn siarad gyda Canby. Rwyd ti'n gwisgo'i esgidiau am dy draed ..."

Camodd Manuelito at ei ferch. Gafaelodd ym mraich Haul y Bore a'i thywys at y tân. Dangosodd hi i'r cylch cyfan. Yna trodd, a chan ddynewared Herrero dywedodd yn goeglyd, "Ymbwylla, Manuelito!" Trodd at y pennaeth. "Herrero. Dyma fy merch. Fy merch a drawyd yn fud gan y Cotiau Glas! Fy merch a dreisiwyd yn ei gwendid! Fy merch y torrwyd pen ei baban yn ei gŵydd! Ac rwyd ti'n dweud 'Ymbwylla Manuelito'!" 10

Tynnodd esgidiau Canby yn ffyrnig oddi am ei draed a'u taflu nhw i'r tân. 15

"Mae'r amser i ymbwyllo wedi pasio. Mae'r amser i fod yn feddal wedi pasio. Mae'r amser i rannu wedi pasio. Amser i ryfel ydi hi!"

Cododd murmur o gefnogaeth o blith y dorf. Edrychodd Manuelito ar y lleill yn eu tro.

"Barboncito? Herrero? Delgadito? Armijo? Dynion ydan ni! Mae gwaed coch y Navaho yn llifo yn ein gwythiennau!" 20

Cyn iddo fynd ymhellach clywsant sŵn carlamu gwyllt a rhuthrodd un o warchodwyr y Ceunant tuag atynt ar ei geffyl.

"Y Taflwr Rhaffau!" gwaeddodd. "Mae'r Taflwr Rhaffau ar ei ffordd."

* * *

Gallai Manuelito weld fod Kit Carson yn crynu gan gynddaredd. 25

Roedd Carson wedi synhwyro'n syth fod rhywbeth o'i le yng ngwersyll Ceunant de Chelley, pan welodd y llwyth cyfan yn cyfarfod o amgylch tân y pennaeth. Gwyddai ar ei union hefyd mai gwrando, a gwrando'n astud, fyddai ei orchwyl gyntaf. Roedd hi'n arwyddocaol mai Manuelito ac nid Herrero Grande oedd wedi cerdded ato i'w gyfarch.

"Manuelito! Cyfarchion ers sawl dydd!" 30

"Dydy'r Taflwr Rhaffau ddim wedi dewis diwrnod da i ymweld â'r Navahos!"

"Mae poen yn dy lais ac yn dy lygaid, Manuelito." Edrychodd o'i amgylch. "Mae dy bobl yn rhannu dy boen."

Oedodd cyn ychwanegu, "Mi hoffwn innau rannu dy boen."

Amneidiodd Manuelito arno i ddisgyn oddi ar ei geffyl a dod at y cylch wrth y tân. Yna galwodd ar Quanah. 35

"Dywed dy stori, Quanah, a dywed hi i gyd!"

Am chwarter awr bu Kit Carson yn gwrando ac yn gwingo. Y Capten Victor Dicks oedd y milwr yr oedd yr hen wraig wedi'i ddisgrifio. Oedd, roedd Carson yn ysgwyd gan gynddaredd pan orffennodd Quanah ei stori. 40

"Manuelito, rwyd ti a'th gefndryd, yr Apache, wedi dioddef cam mawr. Ond fel ymhlith y Navahos, mae yna ymhlith y Cotiau Glas ddynion drwg."

"Mae'r Cotiau Glas y gyd yn ddrwg!"

"Rydw i wedi ymuno â'r Cotiau Glas, Manuelito!"

"Mae'r Navahos yn parchu'r Taflwr Rhaffau. Ond pan fydd o mewn Côt Las, gelyn fydd o, nid brawd." 45

"Mi a' i â'r stori am Chiquito yn ôl i'r Cyrnol Canby ac i'r Cadfridog Carleton. Rydw i'n meddwl fy mod i'n gwybod pwy yw'r dyn a arweiniodd y lladd. Dylai gael ei gosbi ..."

Y STAFELL DDIRGEL – Marion Eames

5. Darllenwch y darn a gymerwyd o **Y Stafell Ddirgel**. Yna, atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

(a) Ysgrifennwch **bortread** llawn o **gymeriad Meg**.
Defnyddiwch dystiolaeth o **ran gyntaf y nofel** wrth lunio'r portread. [4]

(b) Nodwch **un** o'r themâu a ddangosir yn y dyfyniad hwn.
Sut y mae'r thema hon yn cael ei datblygu drwy gydol y nofel?
Cyfeiriwch at enghreifftiau penodol wrth ateb. [5]

(c) Dewiswch **dair** nodwedd arddull **wahanol** o'r darn isod. Dylech:

- eu henwi;
- dyfynnu enghraifft o'r tair nodwedd;
- egluro eu pwrpas a'u llwyddiant.

Gallwch gyfeirio at nodweddion megis ansoddeiriau, cyffelybiaethau / cymariaethau, trosiadau, hyd brawddegau, cyferbyniadau / gwrthygyferbyniadau, deialog ac ati. [6]

(ch) Ysgrifennwch gofnod yn **nyddiadur Rowland Ellis** ar ddiwedd y nofel.
Dylai'r dyddiadur egluro'n fanwl beth y mae Rowland yn ei deimlo a'i gofio wrth edrych yn ôl ar ei fywyd yn ogystal â chyfleu personoliaeth y cymeriad.
Ysgrifennwch tua dwy dudalen. [10]

[25]

'Clywais gryn sôn amdanat gan Ellis Puw.'

'Felly. Ydych chi'n nabod Ellis?'

Gwenodd hithau.

'Da iawn y dysgaist iddo ddarllen. Mae Ellis wedi hen ddi-hysbyddu hynny o lyfrau Cymraeg sy gen i yn Nolserau.'

5

Roedd hyn yn newydd i Rowland.

'Gynnoch chi, felly ...? Wyddwn i ddim pwy oedd yn rhoi benthyc llyfrau iddo fo.'

'Na. Mae Ellis yn credu yn yr hen air – "Doeth pob tawgar." Ofni roedd o y byddet ti'n ddig wrtho fo.'

Agorodd Rowland ei lygaid yn llydan.

10

'Yn ddig? Fi? Pam hynny tybed?'

'Oni wyddost ein bod ni'n deulu peryglus? Ofni roedd Ellis y byddai ei fistar yn ei wahardd rhag dod i Ddolserau mwyach.'

'Ond mae hynny'n –'

'Yn afresymol? Ydy, ond fe ddigwyddodd o'r blaen i eraill. Ac mae gan Ellis gymaint o barch at Rowland Ellis fel mai loes calon iddo fyddai gorfod gadael ei wasanaeth.'

15

Edrychodd Rowland arni â llygaid miniog.

'Os oes cymaint o berygl i Rowland Ellis ymddwyn felly tuag at ei was, pam mae Jane Owen yn bradychu ei gyfrinach?'

Roedd ennyd o ddistawrwydd.

20

'Am fod Jane Owen yn synhwyro fod Rowland Ellis eisoes wedi profi drosto'i hun nerth y goleuni oddi mewn,' oedd yr ateb tawel.

Clywodd Rowland ei geiriau yn mynd trwyddo fel saeth. Codai pob cynneddf ynddo i wrthryfela yn erbyn yr hyn a glywsai. Trefnasai ei fyd yn ddestlus. Bryn-mawr, safle cymdeithasol fel mân sgweiar yn ymhyfrydu yn ei achau nobl, llyfrau, a'r hyn a ddysgasai yn ei ysgol yn Amwythig i ddfyrru ei oriau hamdden, parch ei gymdogion – a Meg. Go brin y cyfaddefai wrtho'i hun mai patrwm a weyd gan ei briod oedd y byd hwn. Roedd Meg yn trin ei ddymuniadau a'i ddyheadau fel clai yn llaw'r crochenydd. Gwyddai i sicrwydd pe gwyrar gam oddi wrth y patrwm hwn y collid Meg iddo am byth. Ar ben ei bryder presennol yn ei chylch, roedd yr awgrym yng ngeiriau Jane Owen yn fwy nag y gallai ei ddiodef. 30 35

'Wn i ddim sut yr honnwch eich bod yn darllen fy meddwl mor dda,' ebe ef a'i lais yn oer. Ac ar yr un pryd roedd ganddo gywilydd o fod mor blentynnaidd. Ond nid oedd am gyfaddef hynny wrth y wraig ryfedd hon a safai o'i flaen mor dawel ac mor sicr ohoni ei hun. Ceisiodd feddwl am esgus i droi'r sgwrs neu i ymadael â'r stafell yn foegar, ond achubodd hi'r blaen arno. 40

'Bydd y Cyfeillion yn cyfarfod yn Nolserau ar nos Galan. Mi fyddai pob un ohonon ni'n falch o'th weld gyda ni.'

Ni chafodd Rowland gyfle i ateb. Agorwyd y drws yn drwsogl gan rywun o'r ochr arall, a chyda chwerthin mawr – chwerthiniad dwfn dyn penderfynol a chwerthiniad ysgafn gwraig yn hanner protestio. 45

'Ym . . . dim ond am eiliad . . .'

Roedd lleferydd Hywel Vaughan wedi tewhau, ond roedd y brys – a'r blys – yn ei lais yn ddigon huawdl. Tynnodd Meg ar ei ôl i mewn i'r llyfrgell, a suddodd calon Rowland yn is fyth o weld ei bod hithau wedi cael mwy na digon i yfed. Roedd ei llygaid yn ddieithr, a'i gwefusau'n llac. Syrthiasai'r ffrog felfed las i lawr oddi ar un ysgwydd, ac ni wnaeth hithau ddim i'w chodi yn ei hôl. 50

Syrthiodd distawrwydd rhewllyd fel cyllell ar draws y stafell pan sylweddolodd y ddau yn araf bach nad oeddynt ar eu pennau'u hunain. Safodd Rowland fel dyn wedi ei droi'n golofn o halen. Dechreuodd Meg chwerthin yn nerfus. Ceisiodd Hywel ar unwaith guddio'r sefyllfa drwy weiddi mewn llais annaturiol o uchel:

'Wel, Rowland, yr hen gena yn cuddio fan'ma . . .'

Stopiodd yn stond, a diflannodd y grechwen o'i wyneb. Sylweddolodd am y tro cyntaf fod ei chwaer yno hefyd. Er ei ofid synhwyrodd Rowland fod elfen newydd wedi llenwi'r stafell – casineb iasoer. Am funud anghofiodd ei genfigen a'i anghysur ei hun. Roedd y teimlad a basiodd o'r brawd i'r chwaer yn rhywbeth y gellid gafael ynddo bron. 55

'A beth wyt ti'n ei wneud yma?'

Dyma Hywel Vaughan newydd i Rowland Ellis – ac i Meg hefyd. Dim sôn yn awr am hyder diofal y dyn ffasiynol. Dim arwydd yn y llais cras o'r cwrteisi a'r steil bonheddig a swynodd ac a ddrysodd Meg. Yr un fath â Rowland, parlyswyd hi gan y geiriau noeth, mileinig a'r edrychiad enbyd. 60

Prin y gallai Rowland godi ei lygaid i edrych ar Jane Owen. Pan lwyddodd i wneud hynny, fe'i synnwyd gan mor dawel a llonydd oedd ei hwyneb. Ni ddywedodd air, eithr parhaodd i edrych ar ei brawd â'i llygaid yn llawn tosturi. 65

'Ateb fi, y gnawes hurt. Be wnei di yma? Fe wyddost yn iawn fod drws yr Hengwrt wedi ei gloi iti.'

'Nid ar fy rhan fy hun y dois i yma heno, Hywel. Cais sy gen i iti – ar nos Nadolig.'

Dechreuodd Hywel ddannod ei haerllugrwydd yn meiddio gwneud cais iddo, ond torrodd hithau ar ei draws. 70

'Os ydy'r Nadolig yn golygu rhywbeth iti, Hywel – os ydy geni Tywysog Tangnefedd yn golygu rhywbeth iti, rhaid iti wrando arna'i heno. Ddo'i ddim yma eto, rwy'n addo iti. Ond os oes rhyw drugaredd ynot ti heno, rwy'n ei erfyn o ar ran Ifan Robarts, yr hwsmon acw.'

Edrychai Hywel fel pe bai'n mynd i dagu. 75

'Hwsmon, myn uffern i! Mi gedwais i dy wâr o'r carchar lle y dylai fod, er mwyn enw da'r Fychaniaid. A rwan rwy'ti'n disgwyl imi wneud yr un peth i'w was.'

WELE'N GWAWRIO – Angharad Tomos

6. Darllenwch y darn a gymerwyd o **Wele'n Gwawrio**. Yna, atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

(a) Ysgrifennwch **bortread** llawn o **gymeriad Her**.
Defnyddiwch dystiolaeth o **bob rhan o'r nofel** wrth lunio'r portread. [4]

(b) Nodwch **un** o'r themâu a ddangosir yn y dyfyniad hwn.
Sut y mae'r thema hon yn cael ei datblygu drwy gydol y nofel?
Cyfeiriwch at enghreifftiau penodol wrth ateb. [5]

(c) Dewiswch **dair** nodwedd arddull **wahanol** o'r darn isod. Dylech:

- eu henwi;
- dyfynnu enghraifft o'r tair nodwedd;
- egluro eu pwrpas a'u llwyddiant.

Gallwch gyfeirio at nodweddion megis ansoddeiriau, cyffelybiaethau / cymariaethau, trosiadau, hyd brawddegau, cyferbyniadau / gwrthgyferbyniadau, deialog ac ati. [6]

(ch) Ysgrifennwch **ymson Ennyd** tua diwedd y nofel.
Dylai'r ymson egluro'n fanwl beth y mae Ennyd yn ei deimlo a'i gofio wrth edrych yn ôl ar ei bywyd yn ogystal â chyfleu personoliaeth y cymeriad.
Ysgrifennwch tua dwy dudalen. [10]

[25]

Yn Noddfa y noson honno, mi ddaru nhw fynnu rhoi'r gwres ymlaen, fy rhoi i yn ôl yn yr arch a 'ngwthio i ben draw y stafell yn agos i ddrws y gegin. Doedd hi fawr o golled, roedd pob man bellach fel petai yn y gwyll, a dim ond amlinell pethau a welwn. Aeth Malan adref at ei theulu, trodd Rasmws tua thref, ond arhosodd Pill. Er yr oerni, diau fod Noddfa radd neu ddwy yn gynhesach na'i gartref o. 5

“Panad i bawb o bobl y byd,” meddai Seibar, “Her ... Pill ... Giaff ... Dwi wedi rhoi llwyaid o wisgi ynddo fo am lwc hefyd.”

“Fedra i mo'i gymryd o 'ta,” meddai Giaff. Roedd o'n llwrymwrthodwr cyn belled ag oedd alcohol dan sylw.

“Yf o – falla daw â ti'n ôl i'r ddaear. Dwi'm wedi cael sgwrs gall efo ti ers dwy flynnad.” 10

“Fydd isio mwy na wisgi i 'nghnesu i,” meddai Her. “Ddychmygais i 'rïoed y byddai hi mor oer. Wrth gerddad, tydi rywun ddim yn sylwi, ond roedd bod ar y trê'n 'na fel cael reid mewn oergell ar olwynion.”

“Dwyt ti 'rïoed wedi bod ar dop Wyddfa mis Ionawr o'r blaen,” oedd unig sylw Giaff.

A doedden ni ddim 'chwaith. Fedra i ddim meddwl am yr un adeg yr aethon ni fyny heb fod o leia yn llewys ein crys neu'n toddi dan haul crasboeth. Ond wedyn, falle mai dim ond rheini oedd y dyddiau cofiadwy. 15

“Be'r andros ydi hwn?” holodd Pill mewn rhyfeddod.

“Ga i weld o . . . o diar,” meddai Her.

“Ydi o'n da i rw bath?” 20

“Mae o werth ugain punt o leia – neu mi roedd o. Seibar! mae Pill wedi dod o hyd i dy contact lens di ...”

“Drycha golwg arni!”

“Ddim mewn blwch llwch ddylat ti cadw nhw, Seibar bach. Os nad oes mwy o ots na hynny gen ti am dy olwg, waeth ti wisgo rislars dros dy lygaid ...” 25

“Yli ar y gocrotsian ’na oddi tani yn ganol y llwch – be mae hi’n ei weld drwy’r gwydr?” gofynnodd Pill.

“Dy wyneb di wedi cynyddu gan gwaith mewn maint – y gryduras, ddaw hi byth dros y sioc.”

“Hei, mae’r lens wedi mynd yn hollol galed,” meddai Seibar efo siom yn ei lais.

“Rigamortis,” awgrymodd Giaff. 30

“Dyna ddiwedd ar y myrraeth yna ’ta,” meddai Seib yn ddigalon.

“Dan ni’n dy licio di fel wyt ti, sbecs a chwawl,” meddai Her.

“Biti na fyddat ti wedi cyfadda hynna’n gynt.”

Tybed a fyddai Seib yn dechrau troi ei olygon tuag at Her rŵan?

Y noson honno, mi adroddodd Her ragor o storïau. Parhad o stori’r noson cynt gawson ni – am ffrindiau Bendigeidfran yn cael sesh fawr am saith mlynedd yn Harlech tra’n gwrando ar Adar Rhiannon. Amdanyn nhw’n ei throï hi tua Gwales ym Mhenfro ac yn mynd i ryw neuadd. Yn y neuadd honno, roedd y trydydd drws nag oeddau nhw i fod i’w agor. Am bron i gan mlynedd mi fuon nhw uwch ben eu digon, heb fynd yn hŷn nac yn poeni am ddim, a phen Bendigeidfran yn gwmni mor ddiddan ag erioed. Ddaru’r awyrgylch yna f’atgoffa i’n sydyn o Steddfod Bala, a mor hapus fuon ni yn y Steddfod honno a chymaint o hwyl gawson ni. 35

Ond mi ddaeth diwedd ar y mwynhad pan gymerodd Heilyn fab Gwyn yn ei ben i agor y drws achos fod ganddo gymaint o eisiau gwybod beth oedd tu hwnt iddo. Ac wrth gwrs, pan agorwyd y drws ar Aber Henfelen, be ruthrodd trwyddo ond gofid a henaint ac ofn a dagrau a’r holl ddrwg fu’n cyniwair cyhyd. Mi ddiflannodd y diddanwch i gyd. 40

Her oedd yr unig un arhosodd efo fi’r noson honno ac aeth y lleill i’w gwelâu. Mi steddodd Her efo mi ar y llawr yn ymyl yr arch a mynd drwy holl hanesion yr anturiaethau gawson ni gyda’n gilydd. Doedd neb yn gallu adrodd stori gystal â Her. 45

Soniodd sut y bu inni gyfarfod am y tro cynta ’rioed – stori ro’n i wedi ei hen anghofio. Soniodd am sut y tyfodd y berthynas yn gyfeillgarwch, a’r pethau bach hynny fu’n allweddol i’n tynnu’n nes at ein gilydd. Be barodd inni chwerthin a be barodd inni golli dagrau. Soniodd am yr amseroedd da a drwg, y troeon y bu inni ddigio’n bwt, y naill wrth y llall, cyn cymodi. Ar adegau prin y byddem yn ffraeo, ond gyda dau enaid mor danbaid yn taro’n erbyn ei gilydd, roedd hi’n storm werth chweil. Soniodd am gariadon y ddwy ohonom, y treialon a’r troeon trwstan, a’r llawenydd. Adroddodd storïau ro’n i wedi eu clywed ganwaith a chyfaddefodd bethau na chrybwyllodd hi erioed o’r blaen. Rhannodd ei chyfrinachau i gyd, atgoffodd fi o’r rhai i. Soniodd wrthyf am ei hofnau a’i gobeithion, ei syniadau a’i breuddwydion. Mi rannodd y cyfan â mi. 50

Mi ges fy niddanu ganddi drwy’r nos ac oriau mân y bore. Mae’n rhaid ei bod wedi ymlâdd, wedi colli dwy noson o gwsg. Ond cannwyll felly oedd Her, yn llosgi’n eirias wyllt am ddyddiau, yna’n diflannu i’w gwâl am ryw ugain awr cyn gallu wynebu’r byd drachefn. 60

Roedd ei llais hi’n mynd yn bellach ac yn bellach oddi wrthyf, er nad oedd hi ond ychydig fodfeddi o’r clust, ond fe’i teimlwn yn llithro o ’ngafael i. Ymdrechwn i’r eithaf i wrando arni’n agor ei henaid i mi ac yn dweud pethau na fyddai byth yn eu dweud wrth unrhyw un arall tra byddai byw. Nid mai’r geiriau eu hunain oedd y pethau pwysicaf i’w clywed. Drwy ei chariad ffyrnig a’i theyrngarwch eithafol, roedd hi eisoes wedi mynegi’r cyfan oedd raid iddi. Roedd hi wedi cael ei gadael ar draeth, ac roedd fy nghwch i yn mynd yn bellach ac yn bellach oddi wrthi. Roedd ei ffurf yn mynd yn llai, ac yn llai, ac yn llai. Peidiodd y sibrwd egwan yn fy nghlust. 65

O’r ddwy ohonom, Her oedd yn cael y dasg galetaf. Ro’n i wedi gallu wynebu ar unwaith yr hyn y methodd hi ei wynebu – er gwaethaf cryfder ei chymeriad. Gwadodd y ffaith yn daer, am dridiau, heriodd rym Angau, ond fe’i gorfodwyd i’w dderbyn yn y diwedd. Diau mai dyna’r dasg anoddaf iddi ei gwneud erioed. Byddai’n haws iddi fod wedi ffarwelio â’i henaid ei hun. Do, bu raid iddi hitha agor yr hen ddrws hwnnw tuag at Aber Henfelen a gadael i’r gofid lifo trwyddo. 70

Theimlais i mohoni, ond gwn mai hi a gaodd fy llygaid yn y diwedd. Ro’n i wedi darfod.